**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 844 (Cy.76)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, a ddaw i rym ar 31 Mawrth 2007, yn diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 (O.S 2005/537) (Cy.47) ("Rheoliadau 2005").

Mae Rheoliadau 2005 yn rhoi Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 ar waith sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L270, 21.10.2003, t. 123) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1406/2006 (OJ Rhif L265, 26.9.2006, t.8), a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 595/2004 sy'n gosod rheolau manwl ar gymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1788/2003 sy'n sefydlu ardoll yn y sector llaeth a chynhyrchion llaeth (OJ Rhif L94, 31.3.2004, t.22) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1468/2006 (OJ Rhif L274, 5.10.2006, t.6) ("Rheoliad y Comisiwn").

Mae rheoliad 2-

(i) yn diweddaru cyfeiriadau ar ddeddfwriaeth y Gymuned.

(ii) yn dileu'r cyfeiriad at asiant deiliad cwota o ran arolygu cofrestrau.

(iii) yn diwygio'r gofyniad i gyflwyno hysbysiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar drosglwyddo cwota ynghyd â throsglwyddo tir, drwy les ac fel arall, ar ddau ddyddiad gwahanol fel ei bod yn ofynnol i gyflwyno hysbysiad erbyn un dyddiad yn unig, sef 31 Mawrth yn y ddau achos.

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 844 (W.76)

# FOOD, WALES

## The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which come into force on 31 March 2007, amend the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005 (SI 2005/537 (W.47)) ("the 2005 Regulations").

The 2005 Regulations implement Council Regulation (EC) No 1788/2003 establishing a levy in the milk and milk products sector (OJ No L270, 21.10.2003, p 123), as last amended by Council Regulation (EC) No 1406/2006 (OJ No. L265, 26.9.2006, p 8), and Commission Regulation (EC) No 595/2004 laying down detailed rules for applying Council Regulation (EC) No 1788/2003 establishing a levy in the milk and milk products sector (OJ No L94, 31.3.2004, p 22), as last amended by Commission Regulation (EC) No. 1468/2006 (OJ No. L274, 5.10.2006, p 6) ("the Commission Regulation").

Regulation 2-

(i) updates the references to Community legislation.

(ii) removes the reference to the agent of a quota holder in respect of inspection of registers.

(iii) amends the requirement to submit a notice to the National Assembly, on the transfer of quota with the transfer of land, by lease and otherwise, on two different dates, to require submission by a single date, 31 March, in both cases.

(iv) yn diwygio'r dyddiad ar ei ôl y caniateir adennill ardoll heb dalu.

(v) yn diwygio'r weithdrefn cosb weinyddol pan fo crynodebau o ddanfoniadau yn cael eu cyflwyno yn hwyr gan brynwyr llaeth yn unol â newidiadau yn Rheoliad y Comisiwn fel y'i diwygiwyd.

(vi) yn diwygio'r weithdrefn cosb weinyddol pan fo datganiadau o werthiannau uniongyrchol yn cael eu cyflwyno'n hwyr er mwyn dileu'r ddarpariaeth ar atafaelu'r cwota gan fod hyn wedi'i osod allan yn llawn yn Rheoliad y Comisiwn.

(vii) yn diwygio'r gofynion cadw cofnodion ar gyfer gwerthwyr uniongyrchol llaeth a chynhyrchion llaeth.

Mae arfarniad rheoliadol o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael wedi'i baratoi ac mae copïau ar gael o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(iv) amends the date from when unpaid levy may be recovered.

(v) amends the administrative penalty procedure on late submission of summaries of deliveries by milk purchasers in accordance with changes to the Commission Regulation.

(vi) amends the administrative penalty procedure on late submission of declarations of direct sales to remove the provision on confiscation of quota since this is fully set out in the amended Commission Regulation.

(vii) amends the record keeping requirements for direct sellers of milk and milk products.

A regulatory appraisal of the effect which this instrument will have on the costs of business has been prepared and copies can be obtained from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 844 (Cy.76)

## BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *13 Mawrth 2007* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mawrth 2007* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972(**2**) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn o dan y pwerau a roddwyd gan yr adran honno.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2007. Deuant i rym ar 31 Mawrth 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005**

**2**.-(1) Diwygir Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005(**3**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)-

(a) ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn" ychwaneger ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1468/2006 (OJ Rhif L274, 5.10.2006, t. 6)";

(b) hepgorer y diffiniad o "Rheoliad y Comisiwn 1756/93";

(**1**) O.S. 2005/2766.

(**2**) 1972 p.68.

(**3**) O.S. 2005/537 (Cy.47), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/762 (Cy.72).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 844 (W.76)

## FOOD, WALES

## The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *13 March 2007* |
| *Coming into force* | *31 March 2007* |

The National Assembly for Wales has been designated(**1**) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(**2**) in relation to the common agricultural policy of the European Community.

The National Assembly for Wales makes the following Regulations under the powers conferred by that section.

**Title, commencement and application**

**1**. The title of these Regulations is the Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2007. They come into force on 31 March 2007 and apply in relation to Wales.

**Amendment of the Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005**

**2**.-(1) The Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1)-

(a) at the end of the definition of "the Commission Regulation" add ", as last amended by Commission Regulation (EC) No. 1468/2006 (OJ No. L274, 5.10.2006, p 6)";

(b) omit the definition of "Commission Regulation 1756/93";

(**1**) S.I. 2005/2766.

(**2**) 1972 c.68.

(**3**) S.I. 2005/537 (W.47), as amended by S.I. 2006/762 (W.72).

(c) yn y diffiniad o "deddfwriaeth y Gymuned", yn lle ", Rheoliad y Comisiwn, a Rheoliad y Comisiwn 1756/93" rhodder " a Rheoliad y Comisiwn";

(ch) ar ddiwedd y diffiniad o "Rheoliad y Cyngor" ychwaneger ", fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1406/2006 (OJ Rhif L265, 26.9.2006, t. 8)".

(3) Yn rheoliad 7(a), yn lle is-baragraffau (i) i (iii) rhodder-

"(i) sy'n ddeiliad y cwota a nodir yn y cofnod hwnnw, neu

(ii) sy'n rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatganiad yn ysgrifenedig fod ganddo fuddiant yn naliad deiliad y cwota a nodir yn y cofnod hwnnw; neu".

(4) Yn rheoliad 9(3), yn lle'r geiriau ar ôl "Cynulliad Cenedlaethol" hyd at ddiwedd y paragraff rhodder yn eu lle "heb fod yn hwyrach na 31 Mawrth yn y flwyddyn gwota pryd y trosglwyddir.".

(5) Yn rheoliad 31(5), yn lle "1 Medi" rhodder "30 Medi".

(6) Yn rheoliad 36 -

(a) ym mharagraff (1), yn lle "(2) a (3)" rhodder "(2A) a (3)";

(b) hepgorer paragraff (2);

(c) ym mharagraff (5) yn lle "paragraffau (2) i (4)" rhodder "paragraffau (2A), (3), (4) a (6A)";

(ch) yn lle paragraff (6) rhodder-

"(6) Yn ddarostyngedig i Erthygl 8(5) o Reoliad y Comisiwn, os bydd prynwr yn methu â chyflwyno crynodeb y mae'n ofynnol ei gyflwyno o dan Erthygl 8(2) o Reoliad y Comisiwn, cyn diwedd y cyfnod a bennwyd yn Erthygl 8(4), mae o dan rwymedigaeth i dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol gosb sy'n cyfateb i'r ardoll ddamcaniaethol a fyddai'n ddyledus ar 0.01% o'r llaeth yn ôl cyfaint a gwmpesir gan y datganiad hwnnw ar gyfer pob diwrnod o oedi cyn i'r cyflwyniad gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol.";

(d) ar ôl paragraff 6 mewnosoder-

"(6A)Yn ddarostyngedig i baragraffau (5) a (7), pan fo prynwr yn methu â darparu neu gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol-

(a) cais neu ddatganiad ynghylch addasu cwota prynwr yn unol â rheoliad 23(2) i (4);

(b) gwybodaeth yn unol â rheoliad 33(2) i (4); neu

(c) cadarnhad neu ddiwygiadau sy'n ymwneud â fersiwn ddiwygiedig o grynodeb yn unol â rheoliad 35(2),

(c) in the definition of "the Community legislation", for ", the Commission Regulation and Commission Regulation 1756/93" substitute "and the Commission Regulation";

(d) at the end of the definition of "the Council Regulation" add ", as last amended by Council Regulation (EC) No. 1406/2006 (OJ No. L265, 26.9.2006, p 8)".

(3) In regulation 7(a), for sub-paragraphs (i) to (iii) substitute-

"(i) is the quota holder identified in that entry, or

(ii) gives the National Assembly a statement in writing that he or she has an interest in the holding of the quota holder identified in that entry; or".

(4) In regulation 9(3), for the words after "National Assembly" to the end of the paragraph substitute "no later than 31 March in the quota year in which the transfer takes place.".

(5) In regulation 31(5), for "1 September" substitute "30 September".

(6) In regulation 36-

(a) in paragraph (1), for "(2) and (3)" substitute "(2A) and (3)";

(b) omit paragraph (2);

(c) in paragraph (5), for "paragraphs (2) to (4)" substitute "paragraphs (2A), (3), (4) and (6A)";

(d) for paragraph (6), substitute-

"(6) Subject to Article 8(5) of the Commission Regulation, if a purchaser fails to submit a summary required to be submitted under Article 8(2) of the Commission Regulation, by the end of the period specified in Article 8(4), he or she is liable to pay to the National Assembly a penalty equivalent to the theoretical amount of levy that would be due on 0.01% of the quantity by volume of milk covered by that declaration for each day of the period of the delay in the submission reaching the National Assembly.";

(e) after paragraph 6 insert-

"(6A) Subject to paragraphs (5) and (7), where a purchaser fails to provide or submit to the National Assembly-

(a) an application, statement or declaration concerning the adjustment of purchaser quota in accordance with regulation 23(2) to (4);

(b) information in accordance with regulation 33(2) to (4); or

(c) a confirmation or amendments relating to a revised version of a summary in accordance with regulation 35(2),

mae o dan rwymedigaeth i dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol gosb sy'n cyfateb i'r ardoll ddamcaniaethol a fyddai'n ddyledus ar 0.01% o'r llaeth yn ôl cyfaint a gwmpesir gan y cais hwnnw, y datganiad hwnnw neu fersiwn ddiwygiedig ohono, neu'r wybodaeth honno, ar gyfer pob diwrnod o oedi cyn i'r cyflwyniad gyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol.".

(7) Ym mharagraff 7, yn lle "(6)" rhodder "(6A)".

(8) Yn rheoliad 38, hepgorer paragraff (2).

(9) Yn rheoliad 39(2)(a)(ii), yn lle "yn rhinwedd rheoliad 38(2)" rhodder "o dan erthygl 11(4) o Reoliad y Comisiwn".

(10) Ym mharagraff 2(1) o Atodlen 2, ar ddechrau is-baragraff (f) ac (ff) mewnosoder "os yw'n dal 4,855 neu ragor o litrau o gwota gwerthiannau uniongyrchol,".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

13 Mawrth 2007

he or she is liable to pay to the National Assembly a penalty equivalent to the theoretical amount of levy that would be due on 0.01% of the quantity by volume of milk covered by that application, statement, declaration or revised version, or that information, for each day of the period of delay in the submission reaching the National Assembly.".

(7) In paragraph 7, for "(6)" substitute "(6A)".

(8) In regulation 38, omit paragraph (2).

(9) In regulation 39(2)(a)(ii), for "by virtue of regulation 38(2)" substitute "under article 11(4) of the Commission Regulation".

(10) In paragraph 2(1) of Schedule 2, at the beginning of both sub-paragraph (h) and (i) insert "if he or she holds 4,855 or more litres of direct sales quota,".

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**).

13 March 2007

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2007 Rhif 844 (Cy.76)

## BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) (Diwygio) 2007

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2007 No. 844 (W.76)

## FOOD, WALES

The Dairy Produce Quotas (Wales) (Amendment) Regulations 2007

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W0037/03/07 ON